

**Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich apêl:**

Gallwch gysylltu â'r Comisiwn Elusennau yn:

[www.charitiescommission.gov.uk](http://www.charitiescommission.gov.uk)  
neu drwy eu ffonio ar 0845 300 0218



**Os nad yw eich cwyn yn ymwneud â gwasanaeth Alabaré ond am rywun arall sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gallwch gyflwyno cwyn o hyd drwy'r un ffordd y byddech yn cyflwyno cwyn am Alabaré. Gall eich gweithiwr cymorth hefyd roi gwybodaeth i chi am sut y gallwn drefnu **Cyfarfod Datrys**.**

**Rydym yn ceisio datrys anghydfodau yn gyfeillgar ac yn effeithlon, ac nid ydym yn goddef bwlio, aflonyddu na chamdrin ar lafar nac yn gorfforol.**

**Gallwch gwyno i unrhyw aelod o staff Alabaré a byddant yn eich cefnogi drwy'r broses.**

**Os hoffech, gallech hefyd gwyno yn syth i'n Prif Swyddfa drwy:**

**Cyfeiriad y Brif Swyddfa:**

Riverside House  
2 Watt Road  
Salisbury

**E-bost:**


[complaints@alabare.co.uk](mailto:complaints@alabare.co.uk)

**Ffôn/neges destun**

01722 322882

**Ffurflen gysylltu ar y wefan**

[www.alabare.co.uk](http://www.alabare.co.uk)




**Alabaré**

Alabaré is a company limited by guarantee. Registered in England No.2604011  
Registered Charity No.1006504  
Registered Office: Riverside House, 2 Watt Road, Salisbury SP2 7UD  
T: 01722 322882 E: [enquiries@alabare.co.uk](mailto:enquiries@alabare.co.uk) [www.alabare.co.uk](http://www.alabare.co.uk)

**Alabaré**

**Sut i gyflwyno cwyn i Alabaré**





**Rydym eisiau darparu'r gwasanaeth gorau posibl, ond weithiau, efallai na fyddwn yn gwneud hynny.**

Mae ein proses gwynion ar agor i unrhyw un sy'n derbyn gwasanaeth gennym ni neu sydd wedi cael eu heffeithio gan ein penderfyniadau neu'n gweithredoedd.

Rydym yma i helpu ac yn awyddus i ddysgu o'n camgymeriadau, felly rhowch wybod i ni os nad ydych yn fodlon ar rywbeth.

Rydym yn cymryd cwynion o ddifrif, ac yn eu defnyddio i wella ein gwasanaeth.



## Sut y gallaf gwyno?

**Gallwch gofrestru cwyn i unrhyw aelod o staff Alabaré neu yn uniongyrchol i'n prif swyddfa:**


- ◆ Yn bersonol, wyneb yn wyneb
- ◆ Drwy e-bost, ffôn, ffacs neu neges destun
- ◆ Yn ysgrifenedig
- ◆ Drwy'r ffurflen cysylltu ar ein gwefan
- ◆ Drwy lenwi ein ffurflen gwynion (ar gael o unrhyw un o'n swyddfeydd/ gwasanaethau/ siopau) a'i dychwelyd atom.



Gallwch ddod o hyd i fanylion ble i gwyno ar gefn y daflen hon.

Croesewir fformatau amgen megis lluniau, Braille, neu ieithoedd heblaw Saesneg a byddwn yn ymateb i'ch anghenion cyfathrebu. Gallech hefyd ofyn i rywun, megis Eiriolwr, eich cynrychioli neu gallem drefnu i chi gael cymorth.

## Beth fyddwn yn ei wneud



O fewn pum diwrnod gwaith, byddwn yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich cwyn a phwy fydd yn gyfrifol am ymchwilio i'r gŵyn.

O fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn eich cwyn, byddwn yn eich hysbysu ynglŷn â chanlyniad ein hymchwiliad, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu rydym wedi eu cymryd neu y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad.

**Os nad ydych yn fodlon â'r camau gweithredu a gymerwyd mae gennych yr Hawl i Apelio**



Mae gan bawb yr hawl i apelio os na fyddant yn cytuno â'n penderfyniad. Os nad ydych yn hapus gyda chanlyniad eich cwyn, cofiwch apelio o fewn mis gan ddefnyddio'r un broses â chyflwyno cwyn. Drwy ddefnyddio'r un amserlen uchod, caiff yr apêl ei hystyried gan rywun ar lefel uwch na'r person a wnaeth yr ymchwiliad gwreiddiol.